

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Heatherwood Court,
Pontypridd.

Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 3 Mawrth 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-544-1

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	7
	• Ansawdd Profiad y Claf	7
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	8
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	9
4.	Y camau nesaf	11
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	12
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	13
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	16

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Yn dilyn pryderon a nodwyd am y gwasanaeth hwn mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd yn Heatherwood Court ar 8 a 9 Tachwedd 2022. Ni ddefnyddiwyd methodoleg lawn AGIC ar gyfer yr arolygiad, ond yn hytrach canolbwyntiwyd yn benodol ar arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu yn Heatherwood Court, ac ar y prosesau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u rheoli.

Adolygwyd digwyddiadau a oedd yn ymwneud â chleifion a'r cofnodion o'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Caernarfon - Uned Adsefydlu Iechyd Meddwl Dan Glo i Fenywod,
- Uned Caerffili - Uned Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Fenywod,
- Uned Aberteifi - Uned Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Fenywod,
- Uned Cas-gwent - Uned Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cyfarwyddwr yr ysbyty yn arwain mewn ffordd frwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dîm amlddisgyblaethol ymrwymedig. Roedd aelodau'r tîm arwain yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol o'r staff ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y cleifion. Er gwaethaf hyn, ni welsom dystiolaeth o drefniadau llywodraethu sefydledig mewn perthynas â rheoli digwyddiadau a rhoi gwybod amdanynt. Mae angen bwrw ati i gryfhau'r trefniadau hyn ac i sicrhau y caiff digwyddiadau eu cofnodi, y rhoddir gwybod amdanynt ac y dysgir gwersi ohonynt er mwyn cynnal diogelwch y cleifion.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwnaethom edrych ar ffurflenni digwyddiadau cleifion a ffurflenni atgyfeiriadau diogelu. Gwelsom nifer o ffurflenni digwyddiadau a ffurflenni atgyfeiriadau diogelu a oedd yn cyrraedd y trothwy lle roedd angen hysbysu AGIC o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011¹, nad oeddent wedi cael eu cyflwyno
- Er gwaethaf y ffaith bod swydd cyfarwyddwr yr ysbyty wedi cael ei llenwi, gwelsom dystiolaeth na chydymffurfiwyd â'r gofyniad rheoleiddiol i gael rheolwr cofrestredig yn yr ysbyty ers mwy na 12 mis. Roedd hyn gan fod cyfarwyddwr blaenorol yr ysbyty wedi gadael yn sydyn ac o ganlyniad i oedi wrth benodi a chofrestru cyfarwyddwr parhaol newydd

O ganlyniad i'r pryderon a nodwyd yn ystod ein harolygiad mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'r diffyg sicrwydd o ran y prosesau a oedd ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, eu cofnodi a dysgu gwersi ohonynt, nodwyd Heatherwood Court fel Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar 11 Tachwedd 2022. Bydd AGIC yn gweithio'n agos gyda'r darparwr i sicrhau y gwneir cynnydd wrth ymateb i'r pryderon hyn ac y caiff gwelliannau eu gwneud.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

¹Gweler: [Rhoi gwybod i ni am ddigwyddiad | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru \(agic.org.uk\)](#)

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth a Llywodraethu. Ni chafodd Ansawdd Profiad y Claf ei ystyried yn ystod yr arolygiad hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Arweinyddiaeth a Llywodraethu. Ni chafodd Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ei ystyried yn ystod yr arolygiad hwn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd y wybodaeth a gawsom cyn yr arolygiad wedi awgrymu bod pryderon mewn perthynas â rhoi gwybod i AGIC yn rheolaidd am ddigwyddiadau. Rhaid i Ddarparwyr Gofal Iechyd Annibynnol roi gwybod i AGIC am ddigwyddiadau penodol fel y nodir yn Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Rhaid i berson cofrestredig (rheolwr) ysbyty annibynnol, clinig annibynnol neu asiantaeth feddygol annibynnol roi gwybod i ni am ddigwyddiadau penodol mewn perthynas â diogelwch y cleifion.

Roedd y wybodaeth a gawsom wedi nodi pryderon nad oedd AGIC yn cael gwybod am ddigwyddiadau, ac wedi codi pryderon am ansawdd y sicrwydd a gafwyd gan y gwasanaeth yn dilyn digwyddiadau adroddadwy. O ganlyniad, yn ystod yr arolygiad gwnaethom edrych ar gofnodion perthnasol a oedd yn cael eu cadw gan y darparwr er mwyn deall a oedd achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Gwnaethom ystyried 47 o ddarnau o ddogfennaeth, a oedd yn cynnwys ffurflenni digwyddiadau cleifion ac atgyfeiriadau diogelu a oedd wedi cael eu cwblhau gan yr ysbyty yn ystod y naw mis blaenorol. Gwelsom dystiolaeth o sawl digwyddiad nad oedd yr ysbyty wedi rhoi gwybod i AGIC amdanynt fel sy'n ofynnol o dan Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Mae Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn nodi bod angen hysbysu'r awdurdod rheoleiddio am ddigwyddiadau lle mae cleifion yn dianc ac achosion lle bydd cleifion yn cael eu hanafu'n ddifrifol. Yn ystod y naw mis dan sylw, roedd pob digwyddiad na roddwyd gwybod amdano yn perthyn i'r categorïau hyn. Roedd hyn yn achos o ddiffyg cydymffurfio.

Gwnaethom edrych ar sampl o 15 o atgyfeiriadau diogelu. Roedd 11 o'r 15 o atgyfeiriadau yn cyrraedd y trothwy lle roedd angen rhoi gwybod i AGIC amdanynt. Roedd yr ysbyty wedi rhoi gwybod i AGIC am y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau hyn. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybod i AGIC am dri atgyfeiriad.

Gwnaethom edrych ar sampl o 32 o ffurflenni digwyddiadau cleifion dros gyfnod o naw mis. Roedd 20 o'r 32 o ffurflenni digwyddiadau yn cyrraedd y trothwy lle roedd yn orfodol hysbysu AGIC amdanynt. Fodd bynnag, ni chafodd 13 o'r 20 o ffurflenni digwyddiadau eu cyflwyno i AGIC. Achosion o hunan-niweidio oedd y mwyafrif o'r digwyddiadau na chawsant eu cyflwyno. Yn y mwyafrif o'r digwyddiadau hyn, bu'n rhaid mynd â'r claf i'r ysbyty cyffredinol er mwyn cael triniaeth yn yr Adran Achosion Brys. Roedd categori anafiadau difrifol y rheoliadau yn berthnasol i'r digwyddiadau hyn. Gwelsom hefyd nad oedd nifer o'r ffurflenni digwyddiadau cleifion wedi cael eu hadolygu'n briodol gan un o uwch-reolwyr y gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym fod proses glir ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chleifion yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'r adran yn y ffurflenni digwyddiadau lle mae angen iddynt ddewis p'un a oes angen rhoi gwybod am y digwyddiad i gorff arall, gan gynnwys AGIC, neu beidio. Fodd bynnag, nid oedd yn glir i ni p'un a oedd y staff yn deall y trothwy ar gyfer

rhoi gwybod i AGIC na phwysigrwydd gwneud hynny ai peidio, gan fod y staff o'r farn mai peidio â chysylltu ag AGIC fyddai'r dewis cyffredinol. Mae hwn yn faes sy'n peri pryder ac mae angen rhoi sylw iddo a chymryd camau i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd asesu pob digwyddiad a ph'un a oes angen hysbysu AGIC ai peidio.

Roedd yn gadarnhaol gweld fod cynlluniau rheoli risg y cleifion wedi cael eu cwblhau i lefel uchel. At hynny, ar gyfer nifer bach o gleifion, roedd taflenni gwybodaeth barod am gleifion ar gael i dywys y staff. Gwnaethom argymell y dylai'r ysbyty fabwysiadu'r broses hon ar gyfer pob claf.

Siaradodd yr arolygwyr ag uwch-aelodau o'r staff a dywedwyd wrthynt er bod proses ar gyfer cyflwyno ac adolygu hysbysiadau i AGIC, eu bod yn cydnabod bod gwendidau yn y trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a goruchwylio a oedd wedi arwain at y methiannau wrth gydymffurfio â'r broses hon.

Mae'r methiannau hyn mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn arwyddocaol gan na allem fod yn sicr bod y gwasanaeth yn cofnodi digwyddiadau yn rheolaidd, yn rhoi gwybod i AGIC amdanynt na'i fod yn gallu dangos ei fod yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau. Pan fydd digwyddiadau yn codi, mae'n hanfodol bod gwasanaeth yn ystyried y ffactorau sy'n eu hachosi, yn nodi'r hyn y gall ei ddysgu ac yn rhoi camau gweithredu ar waith i leihau'r posibilrwydd o ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r diffyg manylder o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn golygu na allem fod yn sicr bod trefniadau digonol ar waith i sicrhau bod gofal yn cael ei roi mewn ffordd ddiogel.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Er bod gan y gwasanaeth gyfarwyddwr ysbyty â chyfrifoldeb gweithredol dros y gwasanaeth o ddydd i ddydd, roedd yn amlwg nad oedd rheolwr cofrestredig wedi bod yn rhan o'r gwasanaeth ers mwy na 12 mis. Mae'r rôl hon yn ofyniad rheoleiddiol, ac rydym yn pryderu am ddiffyg cynnydd y gwasanaeth wrth gyflwyno cais llawn ar gyfer y rôl hon i AGIC. Mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau i sicrhau y caiff cais llawn i gofrestru ei gyflwyno i AGIC er mwyn gwneud yn siŵr y caiff rheolwr â chymwysterau addas sy'n meddu ar brofiad perthnasol o ran rheoliadau a safonau yng Nghymru ei benodi.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu nodi a'u datrys yn ystod yr arolygiad.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Heatherwood Court

Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Ionawr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff pob digwyddiad adroddadwy ei gyflwyno i AGIC	Rheoliadau 30(1) a 31(1) (b), Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Yn dilyn trafodaeth â Chyfarwyddwr yr Ysbyty, mae archwiliad triongli llawn bellach wedi'i gwblhau ar ôl nodi pob digwyddiad cymedrol a phob digwyddiad yr oedd angen adolygu eu cynnwys yn llawn er mwyn nodi'r digwyddiadau adroddadwy. Bydd angen triongli'r digwyddiadau hyn hefyd yn erbyn y cyflwyniadau diogelu a'r hysbysiadau a wnaed i AGIC yn barod er mwyn osgoi achosion o ddyblygu. O ganlyniad, roedd angen estyniad i'r amserlen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth llawn erbyn cwblhau'r broses.	Abigail Katsande	16.12.2022

		Mae map proses wedi cael ei lunio er mwyn i bob rheolwr sy'n cyflwyno hysbysiadau yn y dyfodol allu cyfeirio ato.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rheolwr â chymwysterau addas sy'n meddu ar brofiad perthnasol o ran rheoliadau a safonau yng Nghymru yn cael ei benodi	Rheoliadau 11 a 12, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	<p>Y rheolwr dros dro presennol (mae Abigail wedi rhoi gwybod ei bod yn ymddiswyddo a bydd yn gadael tua 11.02.2023). Mae cynllun ar waith i drosglwyddo Rheolwr Cofrestredig presennol (Olivia Ferrari) i swydd Rheolwr Heatherwood Court. Cafodd cyfweiliad Rheolwr Cofrestredig yr unigolyn ei gynnal yn ystod y 12 mis diwethaf.</p> <p>Caiff hysbysiad perthnasol ei gyflwyno cyn gynted ag y bydd dyddiad gadael terfynol wedi'i bennu. Fodd bynnag, bydd cyfnod trosglwyddo rhwng Abigail a'r Rheolwr Cofrestredig newydd yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr.</p>	Sarah House	<p>11.02.2023</p> <p>Gall y cais ar gyfer Rheolwr Cofrestredig ddechrau cyn gynted ag y bydd y cyfnod trosglwyddo wedi dechrau ym mis Rhagfyr 2022.</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Sarah House

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Dyddiad: 01/12/2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Heatherwood Court

Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes angen unrhyw welliannau.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: